# 30 syniad chwarae

Plentyndod Chwareus

### 1 Helfa drysor

Dewch o hyd i lygaid y dydd, aeron, hadau dant y llew, blodyn menyn, deilan goch, gwyrdd a melyn, blodyn, brigyn - allwch chi ddod o hyd i fwydyn?

### 2 Ras berfa

Beth am gael ras berfa gydag aelodau o'r teulu a ffrindiau?

### 3 Dringwch goeden



Pa mor uchel gyrhaeddaist ti?

### 4 Bingo Paent

Gofyn i dy siop DIY am gardiau siart paent ac ewch am dro, sawl lliw alli di ei weld ar dy daith?


### 5 Cwrs ras rhwystrau

Gofyn i dy ffrindiau dy helpu i greu cwrs ras rhwystrau, ac yna cynhaliwch rasys (defnyddiwch gylchoedd hwla, bocsys mawr i redeg o'u hamgylch, sgipio …)

### 6 Creu llun enfawr

Gallwch ddefnyddio cefn hen rolyn o bapur wal neu gynfas fawr.

### 7 Gwylio adar



Sawl gwahanol aderyn alli di eu cyfrif mewn diwrnod?

### 8 Helfa drysor ar y traeth

Alli di gasglu 5 gwahanol fath o gregyn; broc môr; 6 carreg fach sgleiniog; gwymon; ac alli di weld cranc? Gwylan?

### 9 Ewch am dro a chasglu cerrig/ cerrig crynion / cregyn a'u peintio

Gallech eu troi'n ddominos!

### 10 Gêm o guddio

Beth am chwarae yn y tywyllwch gyda fflashlampau? Os cei dy ddal gan olau'r fflashlamp, dy dro di yw hi i chwilio.

### 11 Rolio lawr ochr bryn



A chael ras gyda dy ffrindiau.

Cadwch lygad am faw cŵn!

### 12 Hwyl gyda phêl

Gosod fwced ar lawr a gweld os alli di daflu'r bêl I i mewn iddo. Gofyn i dy ffrind symud y bwced ym bellach, ychydig ar y tro... wyt ti'n dal i allu taflu'r bêl I i'r bwced?

### 13 Creu awyrennau papur

A gweld pa un wnaiff hedfan bellaf.

### 14 Adeiladwch guddfan

Un ai y tu mewn neu'r tu allan.

### 15 Ewch i wersylla

Gallwch wneud hyn dan do neu allan yn yr ardd.

### 16 Amser tyllu!

Rhowch rywfaint o deganau bach mewn bowlen o ddŵr a'i rhewi. Unwaith mae wedi rhewi, ewch ati i dyllu am y teganau! Gwych ar gyfer chwarae gyda'r synhwyrau.

### 17 Creu inc cudd

Cymysgwch sudd lemon gyda dŵr. Defnyddiwch ffon gotwm i ysgrifennu ar bapur gwyn. Gadewch i'r inc sychu. Daliwch y papur o flaen bwlb golau i'w ddarllen.

### 18 Troi'n Ddyfeisiwr

Beth alli di ei greu allan o focsys, brigau a darnau o ddefnydd.

### 19 Tynnwch lun grid a chwarae gem o 'sgots' (hopscotch)

Defnyddiwch garreg fach neu dun polish esgidiau gwag fel marciwr.

### 20 Bowlio yn y tywyllwch



10 potel blastig yr un faint, eu llenwi â dŵr ac un ffon oleuo - Hwyl i'r teulu i gyd!

### 21 Hwyl gyda sialc

Gofyn i dy ffrind orwedd ar lawr caled (ddim ar y gwair) a thynna linell o'i amgylch - yna galli roi llygaid a gwên iddo

### 22 Hwyl efo'r Frisbee



Pa mor bell alli di ei thaflu? Sawl gwaith alli di a dy ffrindiau ei phasio o un i'r llall heb ei gollwng?

### 23 Hwyl yn sgipio

Sawl sgip alli di ei gwneud heb stopio?

### 24 Paentio gwn dŵr

Defnyddia wn dŵr a'i lenwi â phaent hylif. Glyna bapur gwyn ar wal, coeden neu ar lawr … saetha'r llun .

### 25 Creu cacen fwd

Galli ddefnyddio cartonau bwyd gwag i greu gwahanol siapiau a meintiau.

### 26 Ewch i syllu ar y sêr

Beth am greu telesgop gyda thiwb cardbord gwag a'i addurno? Arhoswch i'r sêr ddod allan - sawl un alli di ei chyfrif?

### 27 Râs ciwbiau rhew

Llenwi'r cafn rhew gyda dŵr, rho liw bwyd yn y dŵr (4 o bob lliw gwahanol), ac yna ei rewi. Y person sy'n ennill yw'r un sy'n gallu toddi ei giwbiau rhew gyntaf.

### 28 Gŵyl gerddoriaeth swnllyd

Defnyddiwch sosbenni, tuniau a llwyau pren fel drymiau!

### 29 Chwarae dal



Rho gap cawod am ben dy ffrind ac yna ei orchuddio gydag ewyn eillio. Yna, cyfra sawl 'Wotsits' y galli eu taflu i mewn i'r ewyn eillio ar ben dy ffrind!

### 30 Hwyl balwn dŵr

Beth am gêm hwyliog gyda balwnau dŵr a dy ffrindiau a dy deulu.

Cynhyrchwyd gan Play Scotland, PlayBoard Northern Ireland, Play England a Chwarae Cymru ar gyfer Diwrnod Chwarae 2018